| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **11 Hydref 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol dros Fywyd Cyhoeddus**<br>**Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Prosiect** |
| **Teitl:** | **Cydweithredu Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych** |

## 1. Beth ydy testun yr adroddiad?

Y cynnydd y mae Awdurdodau Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn ei wneud tuag at gydweithredu o fewn y Gwasanaethau Priffyrdd a Seilwaith

## 2. Beth ydy'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I gyflwyno argymhellion Bwrdd Rhaglen Cydweithredu Priffyrdd ac Isadeiledd Conwy a Sir Ddinbych yn dilyn ystyried 'Adroddiad Cynllun Gwasanaeth Drafft Gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith Cwbl Integredig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych' (*'Conwy CBC and Denbighshire CC Joint Highways and Infrastructure Fully Integrated Service: Report on the Draft Service Design') (*Medi 2012*)* ar 12 Medi 2012.

## 3. Beth ydy'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried, yn cynnig sylwadau, ac yn cefnogi'r argymhellion isod a wnaed gan Fwrdd Rhaglen Gydweithredu Conwy a Sir Ddinbych:

Mae Bwrdd Rhaglen Cydweithredu Priffyrdd ac Isadeiledd Conwy a Sir Ddinbych (cefnogir gan y Ddau Dîm Gweithredol Corfforaethol) yn argymell i'r Cabinet:

(i) Gan nad yw'r Achos Busnes yn cyflwyno achos eglur dros Wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith cwbl integredig, ni ddylai Conwy a Sir Ddinbych fwrw ymlaen gyda'r opsiwn hwn; a

(ii) Bod Conwy a Sir Ddinbych yn parhau i chwilio am gyfleoedd pellach i resymoli rheolaeth, lleihau costau a gwella gwasanaethau i'n trigolion trwy:

- gryfhau'r meysydd iswasanaeth hynny sydd dan reolaeth sengl,
- archwilio meysydd iswasanaeth Priffyrdd a Seilwaith lle y gallai cydweithredu ddod â buddion i'n trigolion,

- archwilio cyfleoedd lleol (penodol i'r Awdurdod) ar gyfer cydweithredu a threfniadau rheoli ar y cyd rhwng gwasanaethau presennol,
- cynnal a datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant a all arwain at fuddion ychwanegol o'u datblygu'n iawn. Bydd yn rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar achos busnes cadarn dros newid mewn perthynas ag elfennau o'r fath,

a;

(iii) Bod y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2012 ar y gwaith sy'n gysylltiedig ag Argymhelliad 2.

**4. Manylion yr adroddiad.**

Mae copi llawn o 'Adroddiad Cynllun Gwasanaeth Drafft Gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith Cwbl Integredig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych' (*Conwy CBC and Denbighshire CC Joint Highways and Infrastructure Fully Integrated Service :Report on the Draft Service Design' (*Medi 2012*)* ar gael yn Atodiad 1.

***Cefndir***

Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi ymrwymo i ddatblygu dulliau cydweithredol o weithio lle mae yna achos busnes dros wneud hynny. Mae gan ein hawdurdodau record gref o gydweithredu ac mae arnom eisiau i hyn barhau dros oes ein gweinyddiaethau newydd.

Mae ein cydweithrediad ar Briffyrdd a Seilwaith yn cynhyrchu buddion i'n trigolion ac mae'r ddau gyngor wedi ymrwymo at gryfhau cyd-weithio lle bynnag bod achos ariannol neu achos gwasanaeth clir dros wneud hynny. Dair blynedd yn ôl, Conwy a Sir Ddinbych oedd y cyntaf yng Nghymru i benodi Cyd-Bennaeth Gwasanaethau Priffyrdd a Seilwaith er mwyn sicrhau gwelliannau i'r gwasanaeth ynghyd ag arbedion ariannol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae ein cydweithrediad Priffyrdd a Seilwaith wedi cyflawni arbedion o £300k sy'n golygu bod y ddau gyngor wedi gallu buddsoddi mewn blaenoriaethau eraill neu rwystro toriadau i wasanaethau. Rydym hefyd wedi penodi cydreolaeth mewn meysydd pwysig: cludiant ysgol a goleuadau stryd.

Y llwyddiannau hyn ynghyd â'n hymrwymiad at gydweithio oedd y sbardun dros ystyried integreiddio'n llawn yr holl is-wasanaethau o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith dan un strwythur sengl cwbl integredig. Ar ddechrau 2012, comisiynodd yr Awdurdodau astudiaeth fanwl i ganfod a oedd yna achos busnes dros wneud hynny. Mae'r astudiaeth honno bellach wedi'i chwblhau ac ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Mae'r astudiaeth fanwl yn dangos y byddai costau integreiddio'r gwasanaeth yn llwyr yn uchel iawn. Ymhellach, nid yw'n ymddangos fel petai'r manteision posibl yn ddigon i wrthbwyso newidiadau a fyddai'n golygu amharu'n sylweddol ar wasanaethau, heb sôn am lithriadau posibl. Am y rhesymau hyn, argymhelliad Bwrdd Cydweithredu Conwy a Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth y ddau Dîm Gweithredol Corfforaethol, yw peidio â bwrw ymlaen gyda'r model cwbl integredig.

*Y Ffordd Ymlaen*

Mae'r ddau awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig at chwilio am ffyrdd eraill o gryfhau ein cydweithrediad. Byddwn yn edrych ar gyfleoedd pellach i resymoli rheolaeth, lleihau costau a gwella gwasanaethau i'n trigolion. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Byddwn yn cryfhau'r meysydd is-wasanaeth hynny sydd dan reolaeth sengl.
- Byddwn yn archwilio meysydd is-wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith lle y gallai cydweithredu ddod â buddion i'n trigolion,
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd lleol (penodol i'r Awdurdod) ar gyfer cydweithredu a threfniadau rheoli ar y cyd rhwng gwasanaethau presennol,
- Byddwn yn cynnal a datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant a all arwain at fuddion ychwanegol o'u datblygu'n iawn. Bydd yn rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar achos busnes cadarn dros newid mewn perthynas ag elfennau o'r fath.

Yng ngoleuni'r argymhelliad i beidio ag integreiddio'n llwyr, mae'n rhaid nawr ystyried ai'r model presennol ar gyfer darparu gwasanaethau yw'r model gorau i'r dyfodol. Mae'r ddau brif weithredwr wedi comisiynu gweithgor i ystyried yr opsiynau posibl, gan gynnwys dau gyfarwyddwr corfforaethol sef Sasha Davies o Gonwy a Hywyn Williams o Sir Ddinbych, gyda chefnogaeth Danielle Edwards (Rheolwr Prosiect) a arweiniodd yr astudiaeth, a rhywun sydd â chryn wybodaeth o'r maes, y Swyddogion S151, a'r Penaethiaid Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r cyfarwyddwr corfforaethol bod yn rhaid i'r opsiynau ystyried y canlynol:

- sicrhau arbedion ariannol i'r ddau gyngor heb golli unrhyw wasanaethau pwysig i drigolion;
- cryfhau'r cydweithrediad y mae'r ddau awdurdod eisoes wedi ymrwymo ato ar lefel is-wasanaeth, h.y. cludiant ysgol a goleuadau stryd;
- ystyried opsiynau modelau darparu gwasanaeth rhyng-awdurdod yn ogystal ag o fewn awdurdod;
- sicrhau bod yr opsiynau i'w hystyried yn gyson gyda datblygiadau rhanbarthol.

Gofynnwyd i''r cyfarwyddwyr adrodd nôl i'w Prif Weithredwyr erbyn diwedd Hydref. Bydd hyn yn arwain at adroddiad i'r Cabinetau ym mis Tachwedd gydag argymhellion ar gyfer y ffordd ymlaen.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at y datganiad cynhwysfawr a wnaed gan Gyngor Sir Ddinbych, sef i fod yn Gyngor Ardderchog, Agos at y Gymuned. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd wedi nodi saith blaenoriaeth ac mae ymgymryd â'r gwaith hwn yn ymwneud yn uniongyrchol gyda'r blaenoriaethau o 'Wella ein Ffyrdd', 'Moderneiddio'r Cyngor i ddarparu

arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaeth i gwsmeriaid, ‘Strydoedd Glân a Threfi Taclus’ ynghyd â ‘Datblygu economi lleol sy’n fywiog, iach a chryf.’

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae’r astudiaeth fanwl (gweler Atodiad 1, Adran 10) yn dangos y byddai costau integreiddio’r gwasanaeth yn llwyr yn uchel iawn. Ymhellach, nid yw’n ymddangos fel petai’r manteision posibl yn ddigon i wrthbwyso newidiadau a fyddai’n golygu amharu’n sylweddol ar wasanaethau, heb sôn am lithriadau posibl.

Wrth drafod yr opsiynau ar gyfer y ffordd ymlaen, bydd yn rhaid ystyried y costau, Adnoddau Dynol a’r effaith ar wasanaethau eraill.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Ers Ebrill 2012, mae’r Rheolwr Prosiect wedi gweithio gyda’r Tîm Prosiect a’r Swyddogion Cyfathrebu Priffyrdd a Seilwaith i ymgysylltu gyda rhanddeiliaid mewnol (gan gynnwys Undebau) drwy gydol y prosiect trwy gyfrwng: y Timau Datblygu, Timau Sicrhau Ansawdd, Gweithdai (Pennu Gweledigaeth a Dylunio Gwasanaeth), Cylchlythyron a Chyfarfodydd. Cofnodwyd yr adborth a dderbyniwyd, yn fwyaf amlwg wrth lunio’r Weledigaeth, Buddion, Risiau a Dylunio Gwasanaeth.

Nid oes ymgynghori ffurfiol wedi digwydd ers Ebrill 2012.

Er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn derbyn gwybodaeth gyflawn cyn, yn ystod ac ar ôl y broses ddemocrataidd, datblygwyd *Cynllun Cyfathrebu* (Atodiad 2) yn seiliedig at Strategaeth Gyfathrebu Priffyrdd a Seilwaith. Mae’r dyddiadau allweddol ar gyfer cyfathrebu fel a ganlyn:

| Gweithgaredd Cyfathrebu | Dyddiad |
|---|---|
| 1. Llythyr i’r Gweinidog | 20/09/2012 |
| 2. Cyfarfod Briffio gyda Rheolwyr Priffyrdd a Seilwaith a Rheolwyr Is-wasanaethau CBSC a CSDd, gan gynnwys Penaethiaid Gwasanaeth yr is-wasanaethau hynny sydd heb eu cysoni. | 25/09/2012 |
| 3. Rhannu gyda’r Grŵp Swyddogion Cydweithredu | 25/09/2012 |
| 4. Hysbysu’r Undebau | 03/10/2012 |
| 5. Cylchlythyr i Staff ac Aelodau | 04/10/2012 |
| 6. Cyfarfodydd Craffu a Chabinet | |
| *6.1 CSDd Craffu Partneriaeth* | 11/10/2012 |
| *6.2 CBSC Craffu Partneriaeth* | 16/10/2012 |
| *6.3 CSDd Cabinet* | 23/10/2012 |
| *6.4 CBSC Cabinet* | 23/10/2012 |
| 7. Hysbysiad o’r Penderfyniad Gweithredol o Gabinetau CBSC a CSDd | 24/10/2012 |

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Un o’r prif ysgogiadau wrth wraidd llunio rhaglenni cydweithredu yw arbed costau. Os nad oes modd llunio achos dros arbedion, neu o leiaf gwell gwasanaeth am ddim cost ychwanegol, ni ddylai’r prosiect fynd yn ei flaen fel y cynigiwyd. Mae’r rhaglen gydweithredu wedi cynhyrchu gwasanaethau cydweithredol llwyddiannus fel goleuadau stryd, ac nid oes unrhyw reswm pam na all yr elfennau hyn barhau.

Ni ddylai’r Cyngor barhau i ddilyn y prosiect ar ei ffurf bresennol, ond dylai barhau i archwilio ffyrdd o sicrhau arbedion trwy weithio cydweithredol yn y maes hwn.

## 9. Beth ydy’r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Ceir cofrestr risg prosiect llawn i’r gwasanaeth cwbl integredig o fewn yr adroddiad (Atodiad 1).

Bydd asesiad risg arall yn cael ei gynnal fel rhan o’r broses gwerthuso’r opsiynau ar gyfer y ffordd ymlaen.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

S111 Deddf Llywodraeth Leol 1972
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithredaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002
Erthygl 6.3.2 o Gyfansoddiad y Cyngor

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Prosiect Rhanbarthol
Ffôn:  01492 575588